



Mae ymweliad addysgol 'Perlau yn y Dosbarth' (PYYD) yn rhan o brosiect 'Perlau mewn Perygl' LIFE +. Caiff y prosiect ei rannol ariannu drwy gynllun LIFE yr Undeb Ewropeaidd. Prosiect 4 mlynedd ydyw sy'n ceisio sicrhau dyfodol ar gyfer poblogaethau o fisglod perlog dŵr croyw *Margaritifera margaritifera* (Freshwater Pearl Mussels) mewn 21 afon ar hyd Prydain gan gynnwys un ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

Perlau mewn Perygl â'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Un o brif fanteision y cynllun addysgol hwn yw ei fod yn deilwredig a gellir ei addasu tuag at oedrannau cynradd, uwchradd a Level A.

Dysgu Ac Addysgu

Yn ystod ymweliad PYYD bydd cyfle i'r disgyblion weithio mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd yn unigol (ateb cwestiynau ar lafar) mewn grwpiau bach (gweithgareddau) ac fel dosbarth cyfan. Mae PYYD yn cynnig ymgymryd â gweithgareddau byr sydd ychydig yn heriol, creadigol a chyffrous.

Mathemateg

Yn ystod sesiwn PYYD byddem yn edrych ar 'ddatblygu rhif' gyda'r disgyblion, bydd gofyn iddynt fesur a chofnodi oedran cregyn y misglod drwy ddefnyddio graff pwrpasol ac yna fel grŵp bydd gofyn iddynt adio'r oedrannau i weld pa grŵp sydd a'r cyfanswm oedran hynaf. Gall hyn fod yn heriol i ddisgyblion cynradd o gofio fod y misglod hyn yn gallu byw dros 100 oed!

Hanes

Bydd PYYD yn edrych ar hanes y fisglen berlog ym Mhrydain. Cred nifer fod perlau'r misglod hyn wedi denu lŵl Cesar a'r Rhufeiniaid i oresgyn Prydain. Mae'r misglod wedi chwarae rhan bwysig yn niwylliant ein gwlad a byddem yn ceisio esbonio iddynt sut eu bod wedi prnhau i'r fath raddau heddiw.

Daearyddiaeth

Mae daearyddiaeth yn annog disgyblion i ddod yn ddinasyddion byd-eang drwy archwilio'r gofod sydd o'u hamgylch, eu gwerthoedd a'u cyfrifoldebau i bobl eraill, i'r amgylchedd ac i gynaliadwyedd y blaned. Bydd PYYD yn ceisio helpu'r ifanc i wneud synnwyr o fyd cymhleth deinamig, yn esbonio sut y mae pobl a'u hamgylchedd yn rhyngweithio a sut mae'r ecosystem yn gyd-gysylltiedig. Gobeithiwn y bydd y

disgyblion yna yn meddwl yn feirniadol am faterion sy'n effeithio ar y byd a'r bobl yn awr ac yn y dyfodol.

Gwyddoniaeth

Un o brif themâu PYYD yw cyd-ddibyniaeth yr ecosystem gyfan, byddem yn edrych ar gynefinoedd a bioamrywiaeth; ffyrdd y gall pethau byw a'r amgylchedd gael eu gwarchod ac effeithiau anthropogenig arnynt. Mae misglod perlog yn fwytawyr hidlo ac felly yn cael effaith gadarnhaol ar gemeg ac ansawdd y dŵr sudd o fudd i'r rhywogaethau eraill.

Dimensiwn Byd Eang a Datblygiad Cynaliadwy (Formally Education for Sustainable Development) / Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Byd.

Mae PYYD yn gyfle gwych ar gyfer archwilio materion amgylcheddol, difrod amgylcheddol a chyfle i gydnabod ein cyfrifoldebau fel aelodau o gymuned fyd-eang.

Celf, Dylunio a Thechnoleg Gwybodaeth

Mae PYYD yn sail dda ar gyfer gwaith ymchwil pellach e.e gelli'r ymchwilio ar y we ar gyfer hanes y fisglen berlog ym Mhrydain ac fel gellir fod yn destun prosiectau celf, dylunio a thechnoleg gwybodaeth.

Ymweliad Safle - Posibilrwydd

Yn anffodus nid oes gan y prosiect gyllid i dalu am ymweliad safle i'r Afon Eden ond beth sydd yn bosib yw ymweld ag afon ger eich ysgol a gall 'Perlau mewn Perygl' gyflenwi offer ar gyfer chwilota am infertebratau afonol a.y.y.b.